

COMMON RAGWORT

Senecio jacobaea

NATIVE RANGE

Native to the United Kingdom.

CURRENT HABITAT

Particularly roadside verges and wasteland and poorly managed pasture.

SPECIES DESCRIPTION

Common Ragwort is a biennial plant forming a basal rosette in the first year, and a tall flowering stem in its second year. Its leaves are dark green in colour with irregular lobes. The flower head is a conspicuous, large flat-topped head of densely packed bright yellow flowers.

Usually during its second growing season the rosette sends up a single leafy stem, up to one metre in height and produces numerous flower heads. Flowering usually occurs from June until late October after which the plant dies.



HAZARD TO HEALTH



Common Ragwort can be highly toxic to a range of animals, particularly horses and cattle.

Ragwort can cause severe liver damage resulting in death.

Chronic Common Ragwort poisoning is thought to be caused as toxins/alkaloids building up in the liver over time, this cumulative effect can often take weeks (or even months) for symptoms to become apparent. However, if an animal were to consume a large quantity of Common Ragwort in a short space of time, poisoning could be acute, and cause death in a matter of days. Horses and cattle will consume ragwort once it has dried in hay or in silage and loses its bitter taste.

It is advisable in areas where animals graze to maintain appropriate stocking densities for the area and herbage available. A good grass sward should be maintained and areas should not become bare or poached.

There is evidence to suggest Common Ragwort may also be harmful to humans, particularly where toxic plant juices on hands may contaminate food. There is also suggestion that contact with ragwort by hand pulling can cause skin absorption and result in liver damage.

IDENTIFICATION FEATURES

STEMS

Flowering Stems are furrowed and branched from above the middle, produced from the rosette in late May/June and are up to 1m tall.

LEAVES


Noticeably divided, dark green in color and form a rosette before the onset of flowering lower leaves have stalks whilst upper leaves clasp the flowering stem.

FLOWERS

Produced June to October, bright yellow daisy like appearance 1.5 to 2.5 cm across.



A GUIDE TO IDENTIFYING, LOCATING AND CONTROLLING COMMON RAGWORT



The yellow plague!

SEEDS

Produced from the flowers with a parachute of long white hairs, dark grayish brown in color, viable for several years.

CONTROLS

The aim of all forms of control is to prevent the plant flowering and setting seed.

MECHANICAL CONTROL

Cutting or pulling can be an effective form of control and must be completed before the onset of flowering, these works must continue year on year until no new growth is present. Repeated cutting may result in the plant becoming a short lived perennial.

CHEMICAL CONTROL

Common Ragwort responds readily to herbicide application and can be treated with either a total herbicide such as glyphosate or a selective product such as 2,4-D Amine or MCPA. Products containing Citronella oil also achieve success and can be applied whilst the plant is flowering to prevent seed production. Herbicide application must be continued until no new Common Ragwort growth is present.

If herbicides are to be used on or near a watercourse then prior approval will need to be sought from the Environment Agency.

LEGISLATION

Common Ragwort is one of the plants covered by the 1959 Weeds Act, under this act the Secretary of State may serve an enforcement notice on the occupier of land on which injurious weeds are growing. This places a responsibility on a land owner to remove it. Any unreasonable failure to comply with a notice to remove Common Ragwort is an offence.

In 2003 the British Horse Society sponsored a Private Member's Bill to amend the Weeds Act to provide for a code of practice to prevent the spread of ragwort. Government supported the Bill and the Common Ragwort Control Act came into force in February 2004.

CONTACT

Caerphilly County Borough Council
Tel: 01495 272670 / 07766824603
www.caerphilly.gov.uk

Blaenau Gwent County Borough Council
Tel: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Merthyr Tydfil County Borough Council
Tel: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Rhondda Cynon Taff County Borough Council
Tel: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Torfaen County Borough Council
Tel: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk



CREULYS CYFFREDIN

Senecio jacobaea

CYNEFIN BRODOROL

Planhigyn brodorol yn y Deyrnas Unedig.

CYNEFIN PRESENNOL

Yn enwedig ar ymylon y ffordd ac ar dir gwastraff a thir pori nad yw'n cael ei reoli'n dda.

DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Planhigyn eilflwydd yw'r Creulys Cyffredin. Mae'n ffurfio rhosglwm gwaelodol yn y flwyddyn gyntaf a choesyn tal blodeuol ar ei ail flwyddyn. Gwyrdd tywyll yw'r dail gyda llabedau afreolaidd. Pen mawr amlwg a llachar â thrwch o flodau melyn llachar yw'r fflurben.

Fel arfer yn ystod ei ail dymor o dwf, bydd coesyn sengl deiliog, hyd at fetr o uchder, yn tarddu o'r rhosglwm, gan gynhyrchu amryw o fflurbennau. Bydd y planhigyn yn blodeuo o fis Mehefin hyd fis Hydref fel arfer, ac yn marw ar ôl hynny.



PERYGLUS I IECHYD



Gall Creulys Cyffredin fod yn wenwynig iawn i amrywiaeth o anifeiliaid, yn enwedig i geffylau ac i wartheg.

Gall creulys achosi difrod difrifol i'r iau, gan arwain at farwolaeth.

Tybir y caiff gwenwyn cronig gan Greulys Cyffredin ei achosi wrth i docsinau/ alcaloidau gronni yn yr iau dros amser. Yn aml, gall gymryd wythnosau (neu fisoedd hyd yn oed) i'r effaith gronol hon ymddangos ar ffurf symptomau.

Fodd bynnag, pe bai anifail yn bwyta llawer iawn o Greulys Cyffredin mewn cyfnod byr o amser, gallai'r gwenwyno fod yn aciwt ac achosi marwolaeth mewn o fewn dyddiau yn unig. Bydd ceffylau a gwartheg yn bwyta creulys pan fydd wedi sychu mewn gwair neu silwair ac wedi colli ei flas chwerv. Mewn llecynnau lle bydd anifeiliaid yn pori, cynghorir y dylid cadw dwysedd o stoc sy'n briodol ar gyfer yr arwynebedd a'r hawl pori sydd ar gael. Dylid cynnal glastir da, ac ni ddylai llecynnau droi'n foel neu'n fathredig.

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai Creulys Cyffredin hefyd fod yn niweidiol i bobl, yn enwedig os bydd sudd gwenwynig o'r planhigyn ar ddwylo'n gallu difwyno bwyd. Awgrymir hefyd y gall dod i gysylltiad â chreulys cyffredin drwy eu tynnu â llaw hefyd beri bod gwenwyn yn cael ei amsugno i'r croen gan achosi difrod i'r iau.

NODWEDDION ADNABOD

COESYNNAU

Bydd coesynnau blodeuol yn cwysu a changhennu o hanner uchaf y planhigyn, ac yn cael eu cynhyrchu o'r rhosglwm ym mis Mai/Mehefin a hyd at 1m o uchder.

DAIL

Wedi'u gwahanu'n amlwg, yn wyrdd tywyll, ac yn ffurfio rhosglwm cyn i'r planhigyn ddechrau blodeuo. Mae gan y dail isaf goesynnau tra bo'r dail uchaf yn cau am y coesyn blodeuol.

BLODAU

Fe'u cynhyrchir o fis Mehefin i fis Hydref. Maent yn felyn llachar, yn edrych fel llygad y dydd, ac yn 1.5cm i 2.5cm o led.



ARWEINIAD I ADNABOD, CANFOD A RHEOLI CREULYS CYFFREDIN

Y fad felen!

HADAU

Fe'u cynhyrchir o'r blodau. Maent yn llwyd tywyll neu frown a chanddynt barasiwt o flew gwyn hir, ac yn hyfyw am amryw o flynyddoedd.

RHEOLAETH

Nod pob math o reolaeth yw atal y planhigyn rhag blodeuo a chynhyrchu hadau.

RHEOLAETH FECANYDDOL

Gall torri neu dynnu fod yn ddull effeithiol o'i reoli, ond rhaid cwblhau hynny cyn i'r planhigyn ddechrau blodeuo. Rhaid parhau i wneud hynny o'r naill flwyddyn i'r llall hyd nes na cheir unrhyw dwf newydd. Gall torri'r planhigyn droeon beri iddo droi'n blanhigyn parhaol byrhoedlog.

RHEOLAETH GEMEGOL

Mae Creulys Cyffredin yn ymateb yn dda ar ôl taenu chwynladdwr arno, a gellir ei drin naill ai â chwynladdwr llwyr fel glyffosad neu gynnyrch detholus fel 2, 4-D Amine neu MCPA. Ceir llwyddiant hefyd wrth ddefnyddio cynnyrch sy'n cynnwys olew Citronella, a gellir ei daenu tra bo'r planhigyn yn blodeuo er mwyn ei atal rhag cynhyrchu hadau. Rhaid parhau i daenu chwynladdwr arno hyd nes na fydd unrhyw greulys cyffredin yn tyfu o'r newydd.

Os bwriedir defnyddio chwynladdwyr ar, neu wrth ymyl cwrs dŵr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

DEDDFWRIAETH

Mae creulys cyffredin yn un o'r planhigion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Chwyn 1959. O dan y Ddeddf hon, gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno rhybudd gorfodi i feddiannydd tir lle mae chwyn niweidiol yn tyfu. Mae hyn yn gosod cyfrifoldeb ar berchennog y tir i gael gwared arno. Mae unrhyw fethiant afresymol i gydymffurfio â rhybudd i gael gwared ar Greulys Cyffredin yn drosedd.

Yn 2003, ariannodd Cymdeithas Ceffylau Prydain Fesur Aelod Preifat i ddiwygio'r Ddeddf Chwyn er mwyn cynnwys darpariaeth ar gyfer cod ymarfer i atal creulys rhag ymledu. Cefnogwyd y mesur gan y Llywodraeth, a daeth y Ddeddf Rheoli Creulys Cyffredin i rym ym mis Chwefror 2004.

MANYLION CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ffôn: 01495 272670 / 07766824603
www.caerffili.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ffôn: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ffôn: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Ffôn: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk

